

Cyfarwyddyd Adrodd Safonedig ar Ollyngiadau Ymbelydrol 2018

Drwy arfer y pwerau a roddir gan reoliad 62(1) o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (a) (“Rheoliadau 2016”), mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyfarwyddo Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo Corff Adnoddau Naturiol Cymru fel a ganlyn.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru, fel sy'n ofynnol gan reoliad 62(3) o Reoliadau 2016.

Gwneir y Cyfarwyddyd hwn at ddiben sicrhau yr adroddir ar wybodaeth safonedig ar ollyngiadau ymbelydrol i'r amgylchedd drwy'r awyr ac ar ffurf hylif o orsafoedd pŵer niwclear a safleoedd ailbroesu niwclear, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 67.2 o Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol 2013/59/Euratom(b).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Adrodd Safonedig ar Ollyngiadau Ymbelydrol 2018 a daw i rym ar 15 Mai 2018.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn cyfeirir at Asiantaeth yr Amgylchedd a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru gyda'i gilydd fel “asiantaethau'r amgylchedd”.

Asiantaethau'r amgylchedd i osod gofyniad ar weithredwyr

3.—(1) Rhaid i asiantaethau'r amgylchedd ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr adweithyddion pŵer niwclear a safleoedd ailbroesu sy'n gweithredu'n arferol ddarparu adroddiad ar gyfer pob blwyddyn galendr o ollyngiadau ymbelydrol drwy'r awyr ac ar ffurf hylif yn y flwyddyn honno (“y flwyddyn adrodd”).

(2) Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwerthoedd gweithgarwch gollyngedig yr holl radioniwclidau yn Atodiad 1 o Argymhelliad 2004/2/Euratom(c), pan fo'r rhain wedi eu pennu fel terfynau mewn trwyddedau amgylcheddol, neu wedi eu cynnwys yng ngofynion adrodd rhestr lygredd yr asiantaethau amgylchedd.

(3) Yn y paragraff hwn, mae “sy'n gweithredu'n arferol” yn cynnwys gweithgareddau arferol sy'n ymwneud â gweithredu adweithydd pŵer niwclear neu safle ailbroesu, gan gynnwys yn y cam datgomisio (gweithrediadau cau ac ynysu a gwyliadwriaeth), ond nid yn y cam datgymalu.

4. Gwerthoedd gweithgarwch gollyngedig —(1) Y gofyniad ym mharagraff 3 yw bod gweithredwyr yn adrodd ar werthoedd gweithgarwch gollyngedig ar gyfer radioniwclidau penodol a geir o fesuriadau.

(a) O.S. 2016/1154.

(b) Cyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom dyddiedig 5 Rhagfyr 2013 sy'n gosod safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu rhag y peryglon sy'n codi o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio, ac yn diddymu Cyfarwyddebau 89/618/Euratom, 90/641/Euratom, 96/29/Euratom, 97/43/Euratom a 2003/122/Euratom, OJ L 13, 17.1.2014, t. 1. Gweler hefyd baragraff 9 o Ran 4 o Atodlen 23 i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, a fewnosodwyd gan O.S. 2018/428.

(c) Argymhelliad y Comisiwn 2004/2/Euratom dyddiedig 18 Rhagfyr 2003 ar wybodaeth safonedig ar ollyngiadau ymbelydrol i'r amgylchedd drwy'r awyr ac ar ffurf hylif o adweithyddion pŵer niwclear a safleoedd ailbroesu sy'n gweithredu'n arferol, OJ Rhif L 2, 06.01.2004, t. 36.

(2) Lle gellir cael lefel debyg o gywirdeb drwy gyfrifo gwerthoedd ar gyfer radioniwclidau penodol ar sail data gweithredol neu ganlyniadau mesur ar gyfer radioniwclidau eraill, caiff asiantaethau'r amgylchedd ganiataú i weithredwyr ddefnyddio gwerthoedd wedi eu cyfrifo o'r fath yn lle mesuriadau.

Terfynau a throthwyon ar gyfer gwerthoedd gweithgarwch gollyngedig

5.—(1) Rhaid i'r wybodaeth ar werthoedd gweithgarwch gollyngedig y mae gweithredwyr i adrodd arnynt gydymffurfio â'r gofynion yn y paragraff hwn.

(2) Ar gyfer y radioniwclidau allweddol yn Atodiad 1 o Argymhelliad 2004/2/Euratom, pan fo'r holl werthoedd mesuredig ar gyfer y flwyddyn adrodd yn is na'r terfyn canfod gweithredwr ar gyfer y radioniwclid hwnnw, ni chaiff terfyn canfod y gweithredwr fod yn uwch na'r gofyniad ar gyfer y terfyn canfod a bennir ar gyfer y radioniwclid hwnnw yn yr atodiad hwnnw.

(3) Rhaid i'r broses o bennu'r terfynau canfod a'r throthwyon penderfynu gydymffurfio ag ISO/IS 11929:2010(a) neu safonau ISO sy'n ei ddisodli.

(4) Pan fo gwerth mesuredig ar gyfer radioniwclid yn is na'r trothwy penderfynu, caniateir rhoi gwerth sy'n hanner y trothwy penderfynu yn lle'r gwerth hwnnw. Pan fo'r holl werthoedd mesuredig ar gyfer radioniwclid yn y flwyddyn adrodd yn is na'r trothwy penderfynu, nid oes angen gwneud adroddiad gollyngiadau ar gyfer y radioniwclid hwnnw.

(5) Rhaid i'r dulliau samplu ar gyfer y gollyngiadau ymbelydrol gael eu dogfennu fel eu bod ar gael i'w harolygu.

(6) Yn y paragraff hwn—

ystyr “terfyn canfod” (“*detection limit*”) yw gwerth gwirioneddol lleiaf yr hyn a fesurir sy'n sicrhau tebygolrwydd penodedig y bydd modd ei ddarganfod gan y weithdrefn fesur fel y'i diffinnir gan ISO/IS 11929:2010 neu safonau ISO sy'n ei ddisodli;

ystyr “trothwy penderfynu” (“*decision threshold*”) yw gwerth amcangyfrif yn yr hyn a fesurir a ddefnyddir i bennu bod effaith ffisegol yn bresennol, pan fo canlyniad mesuriad gwirioneddol (wrth ddefnyddio gweithdrefn fesur benodol yr hyn a fesurir sy'n cyfrifo effaith ffisegol) yn uwch na'r gwerth hwnnw – fel y'i diffinnir gan ISO/IS 11929:2010 neu safonau ISO sy'n ei ddisodli.

Adroddiad a grynhowyd

6. Rhaid i asiantaethau'r amgylchedd ddarparu adroddiad a grynhowyd o ollyngiadau ymbelydrol drwy'r awyr ac ar ffurf hylif o orsafoedd pŵer niwclear a safleoedd ailbroesu yng Nghymru a Lloegr i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn ddim hwyrach na 25 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn adrodd.

(a) <https://www.iso.org/standard/43810.html>.

Llofnodwyd drwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol



Umrans Nazir

Dirprwy Gyfarwyddwr, Dadgomisiynu, Deunydd Ymbelydrol a CDG
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

08/05/18

Llofnodwyd drwy awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru



Tim Render

Cyfarwyddwr Arweiniol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Adran am yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

09/05/2018